

mewn canrif, hynny o gyfreithiau gwrth-Iddewig a oedd ar gael, yn dangos pa mor aneffeithiol oeddent. Yr oedd yr Iddewon yn dal i gadw caethion er gwaethaf cyfraith gwlad. Ond y mae'r angen am ailbwysleisio hawliau'r Iddew dros yr un cyfnod yn dangos fod y wladwriaeth yn benderfynol o frwyno sarhad y diwinyddion a chyfyngu ar greulondeb y tyrfaoedd. Yn y cyfnod cynnar, yr oedd gwrth-Iddewiaeth yng ngwledydd Cred yn deillio oddi wrth yr arweinwyr crefyddol nid oddi wrth yr ymerawdwr nac oddi wrth y werin. Diwinyddiaeth yr Eglwys Fore, nid polisi'r llywodraeth, oedd prif ffynhonnell y darlun poblogaidd o'r Iddew fel gelyn y Cristion. Y mae lle i ddiolch ddarfod i Grigor Fawr ategu agwedd gadarnhaol yr ymerodraeth tuag at yr Iddew trwy barchu ei deddfau a gwrthod ildio i'w ddiwinyddiaeth ragfarnllyd ei hun, na rhoi penrhyddid i syniadau gwrthun rhai o'i ragflaenwyr.

PENNOD 2

Cysgod y Groes: Yr Oesoedd Canol (1050 - 1500 O.C.)

Ar y cyfan 'roedd y cyfnod rhwng 600 a 1050 yn un gweddol hapus a digyffro i'r Iddewon. Er fod gelyniaeth barhaus rhwng yr Eglwys a'r Synagog, yr oedd dy berthynas rhwng Iddewon cyffredin a'u cymdogion Cristnogol yn dda. Y mae'n wir na ddeuai hawddfyd fyth i'w rhan, ond ni chawsant chwaith eu herlid yn ddidrugaredd. At ei gilydd, 'roedd y pabau'n oddegar tuag atynt, a phrin yw'r dystiolaeth yn ystod ail hanner y mileniwm cyntaf fod Iddewon y Gorllewin yn cael eu hymld gan dyrfaoedd direol yn enw Crist. Am wahanol resymau, yr oedd yr Eglwys a'r wladwriaeth yn barod i'w gwarchod rhag niwed. Os oedd diwinyddiaeth y Cristion yn eu gormesu, 'roedd hefyd yn sicrhau iddynt yr hawl i fodoli'n gymuned ar wahân o fewn cymdeithas. Yn hyn o beth cafodd polisi Awstin a Grigor Fawr yr effaith ddisgwyliedig. Yr oedd deddf gwlad hithau'n amddiffyn yr Iddewon ac yn parchu eu rhyddid crefyddol, nid am fod parhad y genedl o dragwyddol bwys yng nghynllun Duw, ond am fod yr Iddew o werth economaidd i'r wladwriaeth. Er fod y cymysgedd hwn o ormes a goddefgarwch yn diogelu'r Iddew mewn cyfnod heddychlon, mewn argyfwng deuai atgasedd yr oesau i'r wyneb gyda chanlyniadau erchyll. Cyfnod felly oedd degawd olaf yr unfed ganrif ar ddeg.

Rhyfeloedd y Groes

Blwyddyn nodedig yn hanes y gyfathrach rhwng Iddew a Christion oedd 1096. Hon oedd blwyddyn y Groesgad gyntaf, a dechrau cyfnod o erlid ffyrnig a ddaeth ar warthaf yr Iddewon yn gwbl ddisymwth. Wrth ystyried cefndir y Croesgadau y mae tair ffactor yn haeddu sylw. Y gyntaf yw'r diwygiad crefyddol a gyplysis â sylfaenu Abaty Cluny yn Ffrainc yn 910. Ymgais oedd hwn i buru'r Eglwys trwy roi'r pwyslais dyladwy ar le addoliad a'r bywyd ysbrydol ym mywyd y Cristion. Y canlyniad fu i gysegrleoedd a chreiriau'r saint ennill mwy o barch, ac yn raddol daeth perindota i Balesteina'n fwy poblogaidd. Yn ôl yr ystadegau, bu Cristnogion o'r Gorllewin ar dros gant o bererindodau i grud eu cred yn ystod yr unfed ganrif ar ddeg; chwe phererindod yn unig a wnaed yn yr wythfed ganrif. Yr ail ffactor yw gelyniaeth gynyddol Islam tuag at Gristnogaeth. Ym 1008 syrthiodd Eglwys y Bedd yn Jerwsalem i ddwylo'r Mwslimaidd, ac erbyn 1071 roedd y ddinas gyfan yn eu meddiant. Rhoddodd hyn derfyn disyfyd ar bererindodau Cristnogol, a bu'n rhwystr rhag diwygio'r Eglwys. Ond nid yr Eglwys yn unig oedd ar ei cholled. Gwnaeth agwedd elyniaethus Islam niwed dybryd hefyd i economi Gorllewin Ewrop. Gan mai'r Mwslim a reolai'r gwledydd y tu draw i Gaergystennin, gallai wahardd masnachwyr Cristnogol rhag teithio i farchnadoedd y dwyrain. Aeth llawer busnes proffidiol i'r wal am fod ffyrdd masnach Asia'n gaeedig i farsiaidiwyr y gorllewin. Y ffactor olaf i'w nodi yw trais yr oes. Y mae cronicleu cyfoes yn dangos cyfnod mor wyllt yn hanes Ewrop oedd yr unfed ganrif ar ddeg. Yr oedd y lleidr, y llofrudd a'r herwgipiwr yn eu helfen, a methiant llwyr fu ymgais yr awdurdodau i gadw trefn. Awgryma rhai haneswyr mai ymdrech swyddogol gan yr Eglwys a'r wladwriaeth i ffrwyno ffyrnigrwydd cynhenid y cyfnod a'i sianclu i ddibenion mwy buddiol oedd Rhyfeloedd y Groes.¹

¹ Gw. R. Chazan, *European Jewry and the First Crusade* (London 1987), tt. 50 ym.

Yr alwad i'r gad

Daeth yr alwad i ryfel o ddau gyfeiriad y tu fewn i'r Eglwys: y pab a'r pregethwyr teithiol. Ym mis Tachwedd 1095 aeth y Pab Wrban II i Ffrainc i annerch Cyngor Clermont. Mewn araith danbaid galwodd ar Gristnogion y gorllewin i achub manau cysegredig Balesteina o grafangau'r di-gred. Yr oedd yn ddyletswydd ar dlawd a chyfoethog fynd. Dylent atal rhag rheibio'i gilydd ac ymuno mewn brwydr werth chweil. Breuddwyd y pab oedd gweld byddinoedd disgybledig, a fyddai'n atebol i'r awdurdodau eglwysig, yn croesi Ewrop yn ddiymdros ac ymgasglu yng Nghaergystennin. Eu gorchwyl fyddai adennill Jerwsalem oddi ar y Mwslim a'i hadfer yn ganolfan pererindod Gristnogol. Cafodd yr ymgyrch gefnogaeth frwd pendefigion a masnachwyr — y naill yn gobeithio meddiannu mwy o dir, a'r lleill yn gweld y ffyrdd yn agored iddynt unwaith yn rhagor.

Er i'r esgobion gefnogi'r pab o'u pulpudau a galw ar y ffyddloniaid i ryfel, y mynaich a'r brodyr teithiol oedd y pregethwyr mwyaf effeithiol, dynion annysgedig a dilywodraeth a grwydrai o ardal i ardal yn annog pob person abl i ymuno yn y Groesgad. Yr enwocaf ohonynt oedd Pedr Feudwy, Ffrancwr tanbaid a brwdfrydig. Yn ôl pob hanes, byddai hwn yn gwneud ati i edrych yn aflêr a gwyllt trwy deithio ar gefn asyn, yn garpiog ei ddillad ac yn droednoeth. Ond er gwaetha'i olwg, yr oedd rhyw gyfaredd yn perthyn i'r meudwy nodedig hwn. Ple bynnag yr âi byddai'n sicr o wrandawriad astud, a chyn symud ymlaen byddai wedi ysbrydoli arweinwyr lleol i ddilyn ei esiampl. Mewn ychydig fisoedd yr oedd wedi casglu byddin o tua phymtheng mil ar y ffin rhwng Ffrainc a'r Almaen. Gyda chroes yn y naill law a chleddyf yn y llall, yr oedd Milwyr y Groes yn barod i farchogaeth ar draws Ewrop i achub y manau cysegredig ac i ddal ar elynion Crist. Ond ymddengys nad oedd byddinoedd Pedr Feudwy a'i debyg ar ormod o frys i adael yr Almaen; yr oedd ganddynt waith i'w wneud gartref cyn troi tua'r dwyrain. Thema gyson y pregethwyr oedd arwyddocâd Golgotha i'r Cristion, ac yn ei sgîl, trosedd anfadduol y Croeshoeliad. Onid yr Iddew a lofruddiodd Iesu, ac oni haeddai y gosb eithaf am ei anfad-

waith? Nid oedd angen aros nes cyrraedd Jerwsalem cyn dechrau amddiffyn Cristnogaeth; yr oedd yr Iddew ar garreg y drws. Yn ôl un croniclewr, ymresymai'r Croesgadwyr fel hyn: 'rydym yn awyddus i oresgyn gelynyddion Duw yn y dwyrain. Ond y mae'r Iddewon, cenedl sy'n fwy atgas na'r un arall gan Dduw, yn byw'n ddidramgwydd yn ein plith. 'Rydym yn gwneud y cwbl o chwith'.

Ond nid diwinyddiaeth yn unig oedd y tu ôl i atgasedd y Croesgadwyr at yr Iddew; yr oedd iddo gefndir economaidd a chymdeithasol hefyd. Er dechrau'r unfed ganrif ar ddeg yr oedd Iddewon wedi chwarae rhan allweddol yn economi Ewrop trwy fenthycu arian ar log, ac yr oedd llawer o'r werin bobl mewn dyled parhaus iddynt. Cynyddodd y dyledion pan ddaeth yr alwad i'r Croesgadau, oherwydd gwaith costus oedd paratoi am ryfel, a rhaid oedd benthycu gan Iddewon i gyfarfod â'r draul. Magodd hyn atgasedd tuag at yr Iddew, am na welai'r Croesgadwr pam y dylai ei ymdrechion i amddiffyn ei ffydd gael eu rhwystro o achos dyled i'r genedl a lofruddiodd Grist. Un ffordd o glirio'r ddyled oedd lladd y benthycwr, oherwydd nid oedd benthycwr marw'n debygol o ofyn am ei arian yn ôl.

Os rhywbeth, yr oedd diwinyddiaeth yn fwy grymus nag economeg, ac o ganlyniad i bregethu huawdl y brodyr teithiol ymosododd y bobl gyffredin ar yr Iddewon gan ladd pob un a wrthodai fedydd. Er i amryw o esgobion geisio'u hamddiffyn trwy roi noddod iddynt yn eu cartrefi, ofer fu pob ymdrech i atal llid y tyrfaoedd. Rhwng Mai a Gorffennaf 1096 amcangyfrifir i ddeng mil o Iddewon gael eu lladd yn enw Crist yn yr Almaen yn unig. Bu'r ymosodiadau'n arbennig o greulon mewn dinasoedd fel Speier, Worms, Mainz, Cologne, Trier a Metz, canolfannau Iddewig adnabyddus.

Adwaith yr Iddew

Er i'r Croesgadau ddal ymlaen am dros ganrif a hanner, yr unig un i effeithio'n drwm ar yr Iddewon oedd y gyntaf. Erbyn yr ail a'r drydedd, ym 1146 a 1190, yr oedd yr awdurdodau

¹ Gw. J. Parkes, *The Jew in the Mediaeval Community* (London 1938), t. 65.

eglwysig wedi defbro i'r perygl o roi penrhwyddid i arweinwyr lleol, a gwnaethant ymdrech deg i dorri crib y pregethwyr teithiol. Y canlyniad fu i'r Croesgadau hyn fod yn fwy disgybledig ac i'r cymunedau Iddewig gael llynydd. Ond yr oedd 1096 yn flwyddyn dywyll iawn i Iddewon Ewrop, fel y casglwn o gronicleau Iddewig y cyfnod.

Yr hyn sydd o ddiddordeb yn y ffynonellau yw adwaith yr Iddewon i'r erlid.¹ Er y cyfrifid yr Iddew yn ofnus a di-agwrn-cefn yn yr Oesoedd Canol, tystia'r haneswyr i sawl cymuned ymladd hyd at waed i'w hamddiffyn ei hun. Pan fethodd hyn, trodd llawer o Iddewon at eu cymdogion Cristnogol i ddianc rhag cynddaredd y dorf. Y mae'n wir nad oedd yr ymgais hon chwaith yn effeithiol yn wyneb byddinoedd arfog, ond y mae parodrwydd y Cristion i roi lloches ar ei aelwyd i'r Iddew yn arwydd fod y berthynas rhyngddynt, ar un lefel beth bynnag, yn weddol agos a chyfeillgar. Yr oedd derbyn bedydd yn ffordd arall i'r Iddew osgoi adfyd, oherwydd fel rheol câr'r dewis o farwolaeth neu fedydd. I'r mwyafrif o Iddewon bedyddiedig, dewis ffug oedd hwn. Er iddynt roi'r argraff yn gyhoeddus eu bod yn Gristnogion pybyr, parhaent i arddel Iddewiaeth yn ddirgel. Ond yr adwaith mwyaf syfrdanol o bell ffordd yn y cronicleau yw merthyrdod. I gannoedd o Iddewon yr oedd marwolaeth yn fwy derbyniol na bedydd. Dewisodd llawer humanladdiad yn hytrach na thröedigaeth, a llofruddiwyd plant gan eu rhieni i'w cadw rhag mynd i afael Cristnogion. Dyna'r dystiolaeth eithaf i ffydd y tadau, tystiolaeth na welwyd mo'i bath am fil o flynyddoedd cyn hyn mewn Iddewiaeth. Y tro diwethaf i rieni ladd eu plant oedd yn y ganrif gyntaf O.C. pan ymosododd y Rhufeiniaid ar gaer Masada ar lan y Môr Marw; amddiffynfa olaf y Selotiaid.

Wrth gloriannu creulondeb y Croesgadwyr tuag at Iddewon, rhaid gwahaniaethu rhwng agwedd swyddogol yr Eglwys ac ymddygiad mympwyl y dorf. Yr oedd i bolisi'r Eglwys bedair haen a ddeilliai o'r cyfnod cynnar. O safbwynt diwinyddol, honnid fod Iddewiaeth yn grefydd farw a'i bod bellach wedi ei disodli gan Gristnogaeth. Am i'r Iddewon wrthod y

¹ G. R. Chazan, *op.cit.*, tt. 85 ym. Am y cronicleau Iddewig gw. S. Eidelberg (gol.), *The Jews and the Crusades* (Wisconsin 1977).

gwirionedd a lladd Duw yn y cnawd, collasant ragoſfreintiau cenedl etholedig. Treiddiodd y ddyseidiaeth hon i'r litwgi a'r gwasanaethau a daeth yn gyfarwydd iawn i'r ffyddloniaid. Yn ogystal â'r agwedd negyddol hon at y grefydd Iddewig, ceid y syniad fod Iddewon yn elyniaethus at Gristnogaeth. Yr oedd eu hymgais fwiadus i wrthod bedydd yn brawf terfynol o hyn. Ond yn wleidyddol 'roedd gan Iddewon yr un hawliau â phawb arall. Er nad oeddent fel cenedl yn dderbyniol mwych gan Dduw, yr oedd yr Eglwys yn barod, o leiaf yn ei datganiadau, i'w hamddiffyn rhag niwed ac i gydnabod eu rhyddid crefyddol. Yn gymdeithasol, serch hynny, yr oedd yn rhaid cyfyngu arnynt, oherwydd trwy ei anghrediniaeth gallai'r Iddew fod yn dramgwydd i'r Cristion a'i ddenu i ymuno â defodau a gwyliau Iddewig. Yr oedd yn ofynnol, felly, ei rwystro rhag cyfathrachau â'i gymdogion.

Dyma'n fras bolisi'r Eglwys yn yr Oesoedd Canol. Mewn cyfnodau heddychol, yr oedd yn bur effeithiol — ar wahân i'r cymal olaf. Llwyddodd yr Eglwys i gadw cydbwysedd rhwng condemnio'r Iddew yn ei diwinyddiaeth a'i amddiffyn yn ei chyfraith. Mewn cyfnod terfysgld, fodd bynnag, fel yr unfed ganrif ar ddeg, yr oedd yn anos gweithredu'r fath bolisi cytbwys yn llwyddiannus. Ar y gorau, ffin denau sydd rhwng condemnïad a goddefgarwch, rhwng amddiffyn a chyfyngu. A phan aeth disgyblaeth ac awdurdod yr Eglwys i'r gwynt, y cyntaf i ddioddef oddi wrth gynddaredd gwaedllyd y dorf oedd yr Iddew. Canlyniad propaganda'r Croesgadwyr oedd y cyfnod cyntaf o wir wrth-Iddewiaeth ar raddfa eang yn Ewrop.

Canrif Dyngedfennol

Esgorodd Rhyfelocedd y Groes ar Eglwys gref a buddugoliaethus o dan arweiniad pabau egniol, ac o'r herwydd 'roedd y drydedd ganrif ar ddeg yn gyfnod o adfywiad a chynnydd. Hon oedd canrif y diwygwyr mawr megis Dominic, Ffrancis o Assisi a Tomos Acwin. Dyma oes aur urddau crefyddol y Brodyr Cardod, sef y rheng flaen ym myddin y pab. Ond yr oedd hefyd yn ganrif gythyrlus o safbwynt cred, canrif a welodd sefydlu'r Chwyls yn Rhufain o dan ofal urdd y Dominiciaid i warchod y Ffydd trwy ymladd heresi.

Pedwerydd Cyngor y Lateran

Os oedd y drydedd ganrif ar ddeg yn un gyffrous i'r Cristion, yr oedd yn dyngedfennol i'r Iddew, a hynny oherwydd datganiadau andwyol Pedwerydd Cyngor y Lateran. Ym 1215 galwodd Innocent III bymtheg cant o esgobion a diwinyddion i Rufain i ymgynghori ar sut i amddiffyn y Ffydd yn erbyn hereticaid. Hwn oedd y pab mwyaf dylanwadol er Grigor Fawr, ond yn affodus yr oedd ei agwedd at yr Iddewon yn annodweddiadol o'i ragflaenwyr yn y babaeth. Mewn llythyr at un o bendefigion Ffrainc y mae'n adleisio Awstin:

Gwnaeth yr Arglwydd Cain yn grwydryn a ffoadur ar y daear, ond gosododd nod arno, gan wneud i'w ben ysgwyd, rhag i neb a ddoi ar ei draws ei ladd. Eto, er na ddylid lladd yr Iddewon am dywallt gwaed Iesu Grist, . . . rhaid iddynt grwydro'r ddaear nes eu bod yn llawn cywilydd ac yn barod i alw ar enw Iesu Grist yr Arglwydd.*

Adlewyrchir syniadau negyddol y pab mewn pum datganiad o eiddo Pedwerydd Cyngor y Lateran, cyngor pwysicaf yr Oesoedd Canol, ynglŷn â'r Iddewon.⁴ Ceisiwyd eu rhwystro rhag codi llog ar fenthyciad, am eu bod trwy usuriaeth yn elwa gormod ar Gristnogion yr oedd arnynt angen cymorth ariannol. Nid oeddent i ymddangos yn gyhoeddus yn ystod yr Wythnos Fawr o flaen y Pasg, am eu bod yn dillorni'r Crist croeshoeliedig. Gwaherddid unrhyw Iddew rhag dal swydd o bwys a dylanwad yn y gymdeithas, am ei fod yn debygol o ormesu ei weision Cristnogol. Ni chaniateid chwaith i Iddewon bedyddiedig arddel arferion a seremonïau Iddewig; yr oedd yn rhaid i'w Cristnogaeth fod yn ddilychwin. Yn olaf, gorfodid pob Iddew a Mwslim i wisgo dilledyn arbennig mewn mannau cyhoeddus fel y stryd neu'r farchnad er mwyn i bawb ei adnabod.

Nid oes dim byd chwyldroadol yn y pedwar gwaharddiad cyntaf, ar wahân i'r ffaith fod yr Eglwys fyd-eang yn awr yn rhoi sêl ei bendith ar gyfreithiau a basiwyd eisoes gan gynghorau eglwysig lleol. Ond wrth ddeddfu ynglŷn â gwisg

⁴ S. Grayzel, *The Church and the Jews in the Thirteenth Century* (Philadelphia 1933), t. 126.

⁵ Am y testun llawn gw. E. Synan, *The Popes and the Jews in the Middle Ages* (New York 1965), Atodiad.

neilltuol yr oedd yr Eglwys yn torri tir newydd. Er fod y dull hwn o adnabod anghredinwyr i'w gael o dan Islam mor gynnar â'r nawfed ganrif, dyma'r tro cyntaf i'r Eglwys deimlo'r angen am arwydd gweladwy o'r gwahaniaeth rhwng Cristion ac Iddew. Yn ôl datganiad y Cyngor, diben neilltuo'r Iddew yn y modd yma oedd atal priodasau rhwng Cristnogion ac Iddewon. Os oedd yr Iddew'n gwisgo'i grefydd ar ei lawes, nid oedd gan y Cristion esgus dros beidio'i adnabod cyn ymglyfathachu ag ef. Gellir dadlau, felly, mai pwrpas bugeiliol oedd i'r gyfraith hon, sef ymgais i gadw'r ffyddloniaid rhag troi at Iddewiaeth. Ond o gofio agwedd negyddol y pab, a'r dybiaeth gyffredin mai Iddewon oedd wrth wraidd rhai o'r heresia'u a fygythiai'r Eglwys, haws credu mai mesur gwrth-Iddewig oedd hwn yn y bôn.

Beth bynnag oedd gwir amcan y Cyngor, cafodd y ddeddf ynglŷn â dillad effaith fwy andwylol ar fywyd Iddewig na'r un o'r lleill. Yr oedd gwisg arbennig nid yn unig yn atal yr Iddew rhag cymdeithasu â Christion, ond hefyd yn ei wneud yn destun gwawd ac yn go cyn hitio i'r sawl a fynnai ddial arno. Y mae ymdrechion cyson amryw gymunedau Iddewig i ddiddymu'r ddeddf yn profi pa mor niweidiol ydoedd. Ond ofer fu pob apêl. Er i babau diweddarach liniaru rhywfaint ar gyflwr yr Iddewon, llyncodd pob un ohonynt y syniad o'u neilltuo ag arwyddion gweledig. Ganrif ar ôl canrif ategwyd cyfraith Innosent III gan bab a phendefig. Yr oedd y dehongliad o'r gair penagored 'gwisg' neu 'ddilledyn' a geir yn y ddeddf yn amrywio. Yn yr Almaen a Dwyrain Ewrop het felen bigfain ydoedd, ond yn Ffrainc a'r Eidal cylch o frethyn coch neu fel yn wedi ei wnïo ar y gôt dros y galon.⁶ Er mynd yn angof am gyfnod wedi'r Chwyldro Ffrengig, ailymddangosodd y bathodyn yn yr Almaen ar Medi 1, 1941 pan orchmynnwyd i bob Iddew wisgo 'seren Ddafydd' ar ei wisg, cyfraith ag iddi ganlyniadau echrydus. Mewn un ystyr, 'roedd Adolph Hitler yn etifedd teilwng i Innosent III.

⁶ Gw. mwy am hanes y bathodyn yn I. Abrahams, *Jewish Life in the Middle Ages* (New York 1896 a 1960), pen. 16.

Dulliau cenhadu

Yn ôl deddf eglwysig, nid oedd gan Chwyls y Pab Innosent III hawl i ymyrryd â'r Iddewon. Ei briod waith oedd chwilio am heresia'u y tu fewn i'r Eglwys, ac wedi dod o hyd iddynt, cosbi'r troseddwy'r; disgyblu gau Cristnogion, nid Iddewon a Mwslimiaid, oedd ei diben sylfaenol. Ymddengys, fodd bynnag, i'r Eglwys anwybyddu'r egwyddor hon yn fuan iawn, a mynd ati'n ddwyfal i boenydio'r Iddewon trwy gyfrwng y Chwyls. Er na ellid ystyried yr Iddew yn heretic, ym marn yr awdurdodau yr oedd ei bresenoldeb yng ngwledydd Cred yn andwylol i'r Cristion am ei fod yn arwain y ffyddloniaid i amau gwirioneddau'r Ffydd. Fel yn y canrifoedd cynnar, yr oedd bodolaeth y Synagog yn dal i fygwth yr Eglwys oherwydd hi, o bosibl, oedd y tu cefn i brif heresia'u'r cyfnod. O dan arweiniad y Dominiciaid, sefydlodd y Chwyls dair ffordd i wrthladd y fath ddylanwad niweidiol.

Yn gyntaf, pregethu gorfodol. Ers canrifoedd bu'r arfer o orfodi Iddewon i wrando ar bregethwyr Cristnogol yn rhan o bolisi'r Eglwys ple bynnag yr oedd Iddew a Christion yn cydfyw. Y ffordd orau i ddileu Iddewiaeth oedd cenhadu effeithiol i sicrhau fod yr Iddew yn dod wyneb yn wyneb â gwirioneddau mawr y Ffydd. Tystia'r arferiad hwn i'r dybiaeth gynnar fod y grefydd Cristnogol yn gwbl glir a rhesymol, dim ond i'w lladmeryddion gael cyffe i'w hesbonio. Petai'r Iddew yn dod i adnabod y Ffydd yn ei phurdeb, byddai'n sicr o ofyn am fedydd. Pa ffordd well i wneud hyn na'i orfodi i wrando ar bregethau Cristnogol o bulpu ei synagog. Er nad oedd y dull hwn o genhadu yn newydd, rhoddwyd llawer mwy o bwys arno ar ôl sefydlu urddau pregethu y Dominiciaid a'r Ffransisciaid yn nechrau'r drydedd ganrif ar ddeg. Mynodd y Brodyr Cardod bregethu'n rheolaidd i'r Iddewon trwy gael gan yr awdurdodau dinesig erchi i bob Iddew, ar boen ei fywyd, ddod i wrando ar yr hoelion wyth. Ar y cychwyn nid oedd y pabau'n barod i roi bendith swyddogol yr Eglwys ar ymgyrch y brodyr, ond ym 1278 cyhoeddodd y Pab Nicholas III restr o reolau ynglŷn â gwrando pregethau gorfodol. Yr oedd pob pregeth i'w thraddodi yn y synagog, a hynny un ai ar nos Wener neu fore Saboth, a hefyd ar brif wyliau'r calendr Iddewig, pan

fyddai pob Iddew yn bresennol. I sicrhau fod pawb yn cadw'n effro yr oedd gan y pregethwr hawl i gyflogi 'ysgytiwr' (*excitator*) i fynd o gwmpas y gynulleidfa a chanddo ffon bigfain i gystwyo'r cysgwyr. Ei gyfrifoldeb ef hefyd oedd sicrhau nad oedd gan neb wadin yn ei glustiau yn ystod y bregeth. Gallwn ddychmygu'r atgasedd a enynnodd y pregethau hyn ymysg yr Iddewon, a go brin y ceid llu o dröedigaethau o ganlyniad i ymdrechion y brodyr. Serch hynny, bu pregethau gorfodol yn rhan o bolisi swyddogol Eglwys Rhufain at yr Iddewon am ymrhon chwe chanrif. Fe'u diddymwyd gan y Pab Piws IX ym 1848.

Ail ddull y Chwilyys o genhadu ymhlith Iddewon oedd cynnal dadleuon cyhoeddus rhwng diwinyddion a rabbiniaid ar rai o'r pynciau llog a gadwai Iddew a Christion ar wahân. Mewn llai na chanrif cynhaliwyd tair ohonynt, un yn Ffrainc a dwy yn Sbaen, ac fel yn achos y pregethau, yr oedd gwranddo ar y rhain hefyd yn orfodol i'r Iddewon.⁷ Daeth y cymhelliad i gynnal y ddadl enwog ym 1240 oddi wrth Nicholas Donin, cyn-Iddew a ymunodd â'r Dominiciaid ar ôl derbyn bedydd. Gwynodd Donin wrth y Pab Grigor IX fod y Talmwd, sef y drysorfa ddihiysbydd o ddiwylliant, cyfraith a chred yr Iddew, yn llawn o gyfeiriadau gwrth-Gristnogol ac yn rhwystr i genhadu effeithiol. Ymatebodd y pab trwy anfon llythyr agored yn cefnogi safbwynt Donin at holl frenhinoedd Cristnogol Ewrop, ac erchi iddynt feddiannu pob Talmwd o fewn eu teyrnas a'u trosglwyddo i ofal y Brodyr Cardod. O ganlyniad, trefnodd brenin Ffrainc, Louis IX, gelyn pennaf yr Iddewon, ddadl gyhoeddus ym Mharis rhwng Donin a phedwar rabbi ar natur a chynnwys y Talmwd. Daeth yr erllynydd â phymtheg ar hugain o gyhuddiadau yn erbyn y Talmwd, megis gau-athrawiaeth am natur Duw, cablu enw Crist ac ymosodiadau ar yr Eglwys, cyn galw ar y brenin i losgi pob copi yn ei deyrnas. Ni allai'r Iddewon wadu fod Donin yn olau yn y Talmwd a bod ei gyfeiriadau at adnodau gwrth-Gristnogol yn gywir. Ac er iddynt amddiffyn eu trefladaeth trwy roi dehongliad arall o'r rhannau annerbyniol, a cheisio dangos pa

⁷ Gw. ymhellach ar y dadleuon hyn yn H. Maccoby, *Judaism on Trial: Jewish-Christian Disputations in the Middle Ages* (London 1982).

mor ganolog oedd y Talmwd i'w crefydd, ofer fu pob ymdrech i'w achub. Fe'i condemnwyd gan y pab a llosgwyd llond pedair trol ar hugain ohono, tua 12,000 o gyfrolau, ym Mharis ym 1242.

Mewn un ystyr, yr oedd y drafodaeth a gynhaliwyd ym mhrif synagog Barcelona ym 1263 yn dra gwahanol i'w rhagflaenydd. Nid ar gollfarnu a difa'r Talmwd yr oedd y pwyslais y tro hwn, ond ar ei ddefnyddioldeb i'r diwinydd o Gristion. Bwriad y trefnwyr oedd dyfynnu ffynonellau Iddewig i ategu Cristnogaeth, gan dybio y byddai hyn yn sicr o lorio'r Iddewon a'u gwthio i gydnabod gwirionedd yr Efengyl. Yn y Talmwd gwelai'r Chwilyys gyfeiriadau at dduwdod Crist ac at y gred mai Iesu o Nasareth oedd y Meseia ac iddo ysgubo ymaith y gyfundrefn Iddewig o deml ac aberth pan fu farw ar y groes. Yn naturiol, ni fu sôn am gabledl a chelwyddau'r Talmwd y tro hwn rhag gwanhau achos y Cristion. Unwaith eto, cyn-Iddew o'r enw Pablo Christiani oedd yn erlyn, a Nachmanides, rabbi enwog Gerona, a gafodd y fraint o amddiffyn Iddewiaeth. Afraid dweud mai Pablo a orfu, ac er fod yr agwedd Gristnogol at y Talmwd yn wahanol iawn y tro hwn, gorchmynnodd y pab ei ddifa. Ffodd Nachmanides i Balesteina rhag llid y Chwilyys, ac yno y treuliodd weddill ei oes.

Chwarae plant oedd trafodaethau Paris a Barcelona o'u cynharu â'r un a drefnodd y Gwrth-Bab Benedict XIII yn Tortosa. Parhaodd hon o Chwefror 1413 hyd Dachwedd 1414. Gyda chymorth ei feddyg, y cyn-Iddew Geronimo de Santa Fe, trefnodd Benedict ddadl i gloi pob dadl rhwng yr Eglwys a'r rabbiniaid. Credai'n gydwybodol y byddai hon yn arwain cymunedau Iddewig Sbaen i droi at Grist yn eu crynswth, ac y byddai yntau, Benedict, yn sgîl y tröedigaethau, yn cael ei gydnabod yn wir ben yr Eglwys. Fel ym Marcelona, cefnogaeth y Talmwd i'r gred fod y Meseia wedi ymddangos ym mherson Crist oedd y pwnc. Daeth lluoedd i wrando'r trafodaethau rhwng Geronimo a phedwar ar ddeg o brif rabbiniaid Sbaen, ac yn ôl un cyfrif, bedyddiwyd dros dair mil o Iddewon yn eglwysi Tortosa. Er fod llawer o'r rhain yn feddyddiadau gorfodol, yn y croniciau Iddewig gelwir y flwyddyn 1413-1414

yn 'Flwyddyn y Gwrthgiliad', ac o safbwynt yr Iddew, dyna ddechrau anaddawol i'r bymthegfed ganrif. Ond ni chafodd Benedict ei ddymuniad. Yn y flwyddyn ganlynol fe'i condemniodd yng Nghyngor Constance am achosi sism yn yr Eglwys. Argymhellodd y Tadau fod 'y gangen wywedig hon o goeden yr Eglwys Gatholig yn cael ei thorri i lawr',⁸ a hynny a fu.

Er mai 'trafodaethau' (*disputations*) oedd yr enw swyddogol ar y dadleuon hyn, ym meddwl yr Eglwys nid oedd dim byd i'w drafod. Yr oedd gwirionedd Cristnogaeth yn amlwg i bawb. Disgwyliad y byddai'r rabiniaid yn ildio i'r diwinyddion ac yn arwain eu deliaid i'r fedyddfan. Ond nid dyna a ddigwyddodd. Yr oedd yr Iddewon yn abl ac yn barod i amddiffyn eu cred, a methiant llwyr fu'r dadleuon fel ymgyrch genhadol. Os rhywbeth, dyfnhaodd yr agendor rhwng Iddew a Christion. Yr unig beth y gellir ei ddweud o blaid y trafodaethau yw eu bod yn ymgais i droi'r Iddewon at Grist trwy berswâd yn hytrach na chleddyf. Ond wedi dweud hynny, mynnodd y Chwilyys losgi'r Talmwd, ac fel y dangosodd Hitler, cam bychan sydd o losgi llyfr i losgi'r awdur.

Camgyhuddiadau

Er fod yr awdurdodau yn Rhufain mewn un ystyr yn oddegar tuag at yr Iddew, nid oedd modd iddynt gystadlu â syniadau mympwyol y werin. Yr oedd yr Eglwys leol, sef yr offeiriaid plwyf, y mynaich a'r brodyr teithiol, yn fwy parod na'r Fatican i goleddu ofergoelion amdano ac i hybu amryw o gangyhuddiadau yn ei erbyn. Sylwn ar bedwar o'r rhain sy'n nodweddiadol o'r Oesoedd Canol.⁹

⁸ F. Heer, *God's First Love*, t. 100. Am adroddiad o'r drafodaeth gw. Y. Baer, *A History of the Jews in Christian Spain*, cyf. Saes. (Philadelphia 1971), Cyfr. 2, tt. 170-243; H. Maccoby, *op.cit.*, Rhan 3.
⁹ Ceir ymdriniaeth lawn â'r camgyhuddiadau mewn amryw o weithiau safonol, e.e. J. Trachtenberg, *The Devil and the Jews* (New Haven 1943); L. Poliakov, *The History of Anti-Semitism: From the Time of Christ to the Court Jews* (London 1966), Cyfr. 1, tt. 41-173; S. W. Baron, *A Social and Religious History of the Jews* (New York 1967), Cyfr. 11, tt. 77-191.

Synagog Satan

Ar dudalen flaen llyfr i blant a gyhoeddwyd yn yr Almaen ym 1936 ceir darlun o ddyn hylt a bollog ac oddi tano y geiriau: 'Iddew — plentyn y diafol'. Ymgais i hau had atgasedd at Iddewon ym meddwl yr ifanc oedd y darlun hwn a'i debyg; rhan o bropaganda gwrthsemitaidd Hitler. Ond er i'r Natsiaid wneud defnydd cyson o'r fath syniad enllibus, nid eu heiddo hwy ydyw'n wreiddiol. Y mae'r cysylltiad honedig rhwng yr Iddew a'r diafol yn tarddu o'r traddodiad Cristnogol; fe'i gwelir gyntaf yn y Testament Newydd. Yn Ioan 8:44 y mae Iesu'n troi at y dyrfa sy'n sefyll o'i amgylch a'u cyhuddo o fod yn epil Satan. Meddai, 'Plant ydych chiwi i'ch tad, y diafol, ac yr ydych â'ch bryd ar gyflawni dymuniadau eich tad. Lladdwr dynion oedd ef o'r cychwyn; nid yw'n sefyll yn y gwirionedd, oherwydd nid oes dim gwirionedd ynddo. Pan fydd yn dweud celwydd, datguddio'i natur ei hun y mae, oherwydd un celwyddog yw ef, a thad pob celwydd'. Cyfeiria awdur Datguddiad 2:9 at Iddewon Smyrna fel 'synagog Satan' am iddynt wrthod y Meseia ac erlid ei ddilynwyr; nid gwir Iddewon mohonynt, ond gweision y diafol sydd â'u bryd ar ddifa Cristnogion. Er i Dadau'r Eglwys Fore ystyried y testunau hyn wrth ymdrin ag Iddewiaeth, ni roesant sylw penodol iddynt. Y mae'n wir fod Ioan Chrysostom yn disgrifio'r synagog yn Antioch fel 'cartref cythreuliaid' ac enaid yr Iddew fel 'lloches Satan', ond eithriadau yw cyfeiriadau o'r fath yng ngweithiau diwinyddion cynnar. Yn yr Oesoedd Canol, fodd bynnag, rhoddwyd pwyslais diamwys ar Ioan 8:44. O'r ddeuddegfed ganrif ymlaen ceir amryw o enghreifftiau mewn llên a chelfyddyd Gristnogol sy'n cyfleo'r syniad mai plentyn y Fall yw'r Iddew.

Er mwyn ceisio dirnad sut y treiddiodd y syniad anhygoel hwn i ddysegeidiaeth yr Eglwys, rhaid sylwi ar y portread o'r diafol sy'n nodweddu diwinyddiaeth a diwylliant y cyfnod. Yng nghanrifoedd cynnar Cristnogaeth yr eglurhad arferol am fodolaeth y diafol oedd mai angel colledig ydoedd yn wreiddiol. Selliwyd y gred hon ar destunau megis 2 Petr 2:4 a Llythyr Jwdas 1:6 sy'n sôn am yr angylion a draddodwyd i 'garchar tywyll byd y meirw' am iddynt wrthod cadw 'o fewn terfynau

eu llywodraeth' a 'chefnu ar eu trigfan eu hunain'. Rhoddir dau reswm am eu cwymp. Y naill yw eu hanlladrwydd yn ymgyfathrachau â merched dynion' (Gen. 6:1-4), a'r llall yw eu balchder yn gwrthod derbyn penarglwyddiaeth Duw. Ar gorn yr esboniad hwn ar ei darddiad, portreadir y diafol mewn celfyddyd Cristnogol gynnar fel angel. Nid oes sôn amdano'n ymgnaidd ac yn cerdded y ddacw mewn rhith dynol. Ond erbyn yr Oesoedd Canol yr oedd darlun cwbl wahanol ohono'n dechrau ymddangos. Yng nghrefft y cyfnod hwn cyflwynir ef fel bod ffaidd a gwrthun. Ymddengys weithiau fel corrach, dro arall fel cawr, ond bob amser a chanddo gynffon, crafangu, cynn a locsyn-gafr. Y mae ei wyneb a'i gorff yn fwiadus hyl ac afluniai. Yn hyn o beth y mae'r crefftwr yn adlewyrchu dysgeidiaeth yr Eglwys, oherwydd ei fwiad oedd ategu syniadau'r diwinyddion trwy godi arswyd ar ffyddloniaid anlythrennog a'u cymell i ochel rhag cael eu dal ym maglau'r Fall.

Y mae athrawon blaenllaw'r cyfnod, megis Tomos Acwin (1225-1274) a Duns Scotus (1265-1308) yn fyw i'r peryglon sy'n wynebu credinwyr mewn oes a roddai fwy o sylw i'r diafol nag i Dduw, ac o ganlyniad trafodant natur drygioni a phriodolddau Satan ag arddeliad. Ymysg ei nodweddion pennaf rhestrir anlladrwydd, balchder, celwydd a'r gallu i ddadlau'n gyfrwys yn erbyn Cristnogaeth. Y nodwedd olaf sy'n arwain diwinyddion i ddisgrifio rhesymeg fel 'crefft y diafol' (*ars diabolica*), am fod modd i'w defnyddio i dansellio ffydd y Cristion a'i arwain ar gyfeiliorn. O'r herwydd, ystyrir heresi yn un o gynllwynion y diafol.¹⁰ Yr oedd Tomos Acwin yn argyhoeddedig y gallai cythreuliaid ymgnaidd mewn corff dynol a thwylio credinwyr trwy ymddangos yr un mor naturiol â phawb arall, ar wahân i un peth, sef yr arogl cryf a ffaidd a berthynai iddynt. Ond prif gynrychiolwyr Satan ar y ddacw oedd y gwrachod, a chanddynt hwy y dysgodd poenydwyr y Chwyls am ei briodolddau.

¹⁰ Dyna, ddydded R. Bonfil, 'The Devil and the Jews in the Christian Consciousness of the Middle Ages', yn S. Almog (gol.), *Antisemitism through the Ages* (Oxford 1988), t. 95, ond ni welaf gyfeiriad at hyn yn unman arall.

Y mae cysylltiad agos rhwng y darlun newydd hwn o'r diafol a'r portread poblogaidd o'r Iddew. Ceir enghreifftiau mynych yng ngwaith arlunwyr o'r diafol yn marchogaeth ar gefn Iddew sy'n tyfu cynffon, cynn a locsyn byr, nodweddion yr afr, hoff anifail Satan. Cyhuddid yr Iddew o anniweirdeb a llygredd moesol oherwydd maint ei deulu, ac o falchder oherwydd ei agwedd wrthnysig tuag at Cristnogaeth. Hefyd, am iddo gael ei drwytho yn y dulliau ymyron rabbinaidd, fe'i cyfrifid yn ddadleuwr digymar a'i fryd ar ddiro Cristnogaeth trwy gelwydd. Yn ddiethriad, portreadir yr Iddew yn hyl ac afluniai, a phriodolir iddo 'y drowdod Iddewig' (*foetor iudaicus*) sy'n ei wneud yn hawdd i'w adnabod, ond sy'n diflannu yn nŵr bedydd. Y mae'r cyffelybiaethau hyn rhwng yr Iddew a'r diafol yn rhy agos ac amlwg iddynt fod yn ddamweiniol. Nid oes amheuaeth mai bwriad yr Eglwys yn yr Oesoedd Canol oedd darbwyllo'r ffyddloniaid mai'r diafol mewn crawd oedd pob Iddew. Yn sicr, hyn sydd tu ôl i ymadrodd adnabyddus Shakespeare, 'Certainly, the Jew is the very devil incarnate'.¹¹

Gwenwyno'r ffynhonnau

Esgorodd y camgyhuddiad sylfaenol fod yr Iddew yn blentyn i'r diafol ar eraill, ac yr oedd i bob un ohonynt ganlyniadau brawychus i gymunedau Iddewig ar hyd a lled Ewrop. Y mwyaf pellgyrhaeddol oedd y cyhuddiad o wenwyno'r ffynhonnau yn ystod y Pla Du, un o'r trychinebau mwyaf yn hanes gwareddiad. Rhwng 1346 a 1361 ysodd y clwyf marwol hwn trwy gyfandir Ewrop gan ddifa traean, os nad hanner, y boblogaeth. Amcangyfrifir i tua phum miliwn ar hugain farw mewn pymtheng mlynedd. Yr oedd y mynwydd mor llawn yn anterth yr afiechyd (1347-1350) nes i'r Pab Clement VI, a oedd yn byw yn Avignon ar y pryd, gysegru'r afon Rhôn er mwyn rhoi angladd Cristnogol i'r meirw. Nid rhyfedd yr ystyrir y pla yn gnul i'r Oesoedd Canol. Mewn ofn a dychryn aeth y gwybodusion ati'n ddioed i geisio darganfod tarddiad ac achos y fath gyflafan. Cynigiwyd dau reswm gwahanol, y naill yn ddacwryddol a'r llall yn ddiwinyddol. Tybiai gwydd-

¹¹ *Merchant of Venice*, 2:2.

onwyr a meddygon fod daeargrynfeydd wedi rhyddhau nwyon niweidiol a wenywnai'r boblogaeth trwy lygru'r dŵr a'r awyr. Ond yn ôl yr awdurdodau eglwysig, cosb Duw oedd y pla; dull y dwyfol o ddial ar genhedlaeth wrthnysig. Aeth rhai, megis y pregethwyr teithiol, â'r ddadl ddiwinyddol gam ymhellach, ac ystyried yr Iddew fel yr offeryn a ddefnyddiai Duw i gyrraedd ei nod. Pwy well na phlant y Fall i andwyo Cristnogion? Wedi'r cwbl, onid oedd Satan yn crwydro'r ddaear yn chwilio am gyfle i boenydio credinwyr? Er mwyn hybu'r ddamcaniaeth, taenwyd y stori fod Iddewon Sbaen wedi cychwyn y pla trwy wenywno'r ffynhonnau. Ar wahan i'r ddadl ddiwinyddol, y tu cefn i'r cyhuddiad yr oedd y gred ddi-sail fod llawer llai o Iddewon nag o Gristnogion yn clafychu a marw. Tybid fod yr Iddewon yn gwybod ymlaen llaw pa ffynhonnau oedd yn niweidiol ac yn gofalu peidio â'u defnyddio.

Nid cyhuddiad newydd mo hwn. Fe'i gwnaed eisoes yn yr Almaen ym 1096 a throeon yn y cyfamser, ac ar bob achlysur daeth â rhyw gymaint o erlid yn ei sgŵl. Ond yn y bedwaredd ganrif ar ddeg yr oedd iddo ganlyniadau echrydus iawn. Ledled Ewrop, o Sbaen i Wlad Pwyl, ymosododd y bobl gyffredin ar eu cymdogion Iddewig a'u llofruddio. Bu'r erlid ffynicaf yn yr Almaen lle'r oedd gan bob tref a dinas ran arbennig i Iddewon. Yn Freiburg llosgwyd pob Iddew wrth y stanc, ac eithrio deuddeg o'r rhai cyfoethocaf. Ar Chwefror 14, 1349, sef dydd Saboth, llofruddiwyd dwy fil o Iddewon Strasbourg yn eu mynwent eu hunain, a rhannwyd eu heiddo ymysg y dinasyddion. Nid oes sicrwydd faint o Iddewon a fu farw trwy erlid yn ystod y pla, ond dinistriwyd dros ddau gant o gymunedau Iddewig ffyniannus ar y Cyfandir. Yn eironig, arbedwyd yr Iddewon i ryw raddau rhag salwch gan reolau bwyd a glanweithdra Cyfraith Moses, ond nid oedd dianc rhag cleddyf y Cristion, hyd yn oed trwy derbyn bedydd.

Yn ddiamau, arweinwyr lleol, nid yr awdurdodau yn Rhufain oedd yn gyfrifol am ymddygiad gorffwyl y tyrfaoedd. Fel yn ystod y Groesgad Gyntaf, mynaich, offeiriad a brodyr teithiol oedd am waed yr Iddew, nid yr awdurdodau eglwysig; ni chafodd yr erlid gefnogaeth swyddogol yr Eglwys unrhyw amser.

Ar ddau achlysur protestiodd y Pab Clement yn erbyn y camgyhuddiad o gynllwyn Iddewig byd-eang i ddifa Cristnogion. Er y credai yntau mai cosb oddi wrth Dduw oedd y pla, ni welai unrhyw sail i'r honiad mai gwaith Iddewon oedd y dŵr gwenwynig. Onid oedd y ffaith fod y clwyf yn ysgubo trwy ardaloedd heb yr un Iddew yn byw ynddynt yn tystio nad cynllwyn Iddewig mohono? O ganlyniad i brotest y pab, ni chafodd Iddewon yr Eidal na'r rhai yng nghyffiniau Avignon eu handwyo, ffaith sy'n profi y gallai arweinydd blaenllaw amddiffyn yr Iddew rhag ei boenydwyr pe dymunai.

Llofruddiaeth ddefodol

Camgyhuddiad arall sy'n dod i'r brig yng nghysgod Rhyfeloedd y Groes yw llofruddiaeth ddefodol, sef y gŵyn fod Iddewon yn lladd Cristnogion er mwyn defnyddio'u gwaed mewn seremonïau arbennig.¹² Nid cyhuddiad newydd mo hwn chwaith, nac un a oedd yn gyfyngedig i Iddewon. Yr oedd wedi ymddangos eisoes pan fyddai cymdeithas yn ofni cael ei thanseilio gan sectau dieithr a'u harferion dirgel. Yn y cyfnod cynnar cyhuddwyd Cristnogion gan y Rhufeiniaid o gyflawni aberth dynol, a chyhuddwyd hereticiaid o'r un trosedd gan Gristnogion. Ond er i'r Groegiaid gyhuddo'r Iddewon o lofruddio defodol cyn amser Crist, nid oes unrhyw arwydd fod y Cristnogion cynnar wedi gwneud yr un peth. Ni chlywir sôn amdano, yn yr ystyr o gyhuddiad penodol yn erbyn Iddewon, cyn y ddeuddegfed ganrif. Ond erbyn diwedd yr Oesoedd Canol y mae croniclau'r cyfnod yn frith gan enghreifftiau o'r gred fod ar yr Iddew angen gwaed Cristion ar gyfer dewiniaeth ac ofergoelion crefyddol. Defnyddiai waed, meddid, i wneud bara croyw, i wawdio'r Croeshoeliad, i eneinio'r meirw, i ordeinio rabbiniaid, i ddileu ei ddrewdod, i gymryd lle'r gwaed a gollwyd trwy enwaediad, i warchod rhag clefydau ac mewn llw o arferion eraill. Sylwn yma ar ddau achos nodedig o lofruddiaeth ddefodol, neu 'enllib gwaed' fel y'i gelwir weithiau, sydd o ddiddordeb arbennig i Brydeinwyr.

¹² Am yr ymchwili mwyaf trwydd i'r pwnc gw. R. Po-Chia Hsia, *The Myth of Ritual Murder: Jews and Magic in Reformation Germany* (London 1988).

Noswyl y Groglith 1144 cafwyd corff marw prentis ifanc o'r enw William ar gyŵr gerllaw dinas Norwich.¹³ Ar dystiolaeth amheus Theobald o Gaer-grawnt, a ddisgrifir gan yr hanesydd fel 'un a oedd unwaith yn Iddew ond sy'n awr yn fynach', cyhuddwyd yr Iddewon o'r anfadwaith. Yn ôl y tyst, rabiniaid Ffrainc oedd yn gyfrifol am y cynllwyn, a hwy a ddewisodd Norwich. Eu hamcan oedd dilorni dioddefaint Crist trwy dywallt gwaed diniwed. Er i'r awdurdodau dinesig wrthod dystiolaeth y mynach a cheisio amdiffyn eu cymdegiog, bu terfysg yn y ddinas am ddyddiau a lladdwyd Iddew blaenllaw gan un o'i ddyledwyr. Cadwyd gweddillion y bachgen yn ofalus, a bu beddrod Sant William o Norwich yn gyrchfan pererindod am ganrifoedd.

Ym 1255, pymtheng mlynedd ar hugain cyn i'r Iddewon gael eu halltudio o Brydain — altudiaeth a barhaodd am dair canrif — digwyddodd yr un peth yn Lincoln. Darganfuwyd corff plentyn wyth oed mewn pydew, ac ar air cyn-Iddew cyhuddwyd Iddewon o'i ladd. Wedi prawf brysio, anfonwyd naw deg o Iddewon Lincoln i'r Tŵr yn Llundain lle y crogwyd deunaw ohonynt. Fel yn achos William, cafodd y bachgen, Huw Fychan, yntau ei ganoneiddio, a datblygodd Lincoln hefyd yn gysegrle pwysig yn yr Oesoedd Canol. Y mae'r ffaith i stori Sant Huw ysbrydoli Chaucer wrth ysgrifennu Chwedlau Caer-gaint tua 1386, dros ganrif wedi'r digwydd, yn tystio i barhad a dylanwad pell-gyrhaeddol y fath gangyhuddiadau.¹⁴ I ddiddanu'r pererinion ar eu taith, y mae'r Briores yn adrodd chwedl am lofruddiaeth ddefodol sy'n agor gyda disgrifiad o'r *ghetto*, sef y rhan Iddewig, mewn dinas ddychmygol yn Asia:

In Asia once there was a Christian town
In which, long since, a Ghetto used to be
Where there were Jews supported by the Crown
For the foul lure of their usury.
And through this Ghetto one might walk or ride
For it was free and open either side.

¹³ Gw. ymhellach A. Jessop a M. R. James, *St William of Norwich* (Cambridge 1896); M. D. Anderson, *A Saint at Stake: the Strange Death of William of Norwich, 1144* (London 1964); G. I. Langmuir, *Towards a Definition of Antisemitism* (Oxford 1990), tt. 209-299.

¹⁴ *The Canterbury Tales*, Penguin Classics (London 1977), tt. 187 ym.

Arferai plant y gymdogaeth fynd heibio i'r *ghetto* bob dydd ar eu ffordd i'r ysgol gan adrodd y pader a chanu emynau Cristnogol. Ond nid oedd hyn wrth fodd yr Iddewon:

First of our foes the Serpent Satan shook
Those Jewish hearts that are his waspish nest,
Swelled up and said, 'O Hebrew people look!
Is this not something that should be redressed?
Is such a boy to roam as he thinks best
Singing to spite you, canticles and saws
Against the reverence of your holy laws?'

From that time forward all these Jews conspired
To chase this innocent child from the earth's face.
Down a dark alley-way they found and hired
A murderer who owned that secret place;
And as the boy passed at his happy pace
This cursed Jew grabbed him and held him, slit
His little throat and cast him in a pit.

Cast him, I say, into a privy-drain,
Where they were wont to void their excrement.
O cursed folk of Herod come again,
Of what avail your villainous intent?
Murder will out, and nothing can prevent
God's honour spreading even from such seed;
The blood cries out upon your cursed deed.

Ar ôl i'w fam ddarganfod corff y plentyn, cyhuddwyd yr Iddewon o'r trosedd:

The Provost then did judgement on the men
Who did the murder, and he bid them serve
A shameful death in torment there and then
On all those guilty Jews; he did not swerve.
'Evils shall meet the evils they deserve'.
And he condemned them to be drawn apart
By horses. Then he hanged them from a cart.

Y mae'r briores yn cloi ei chwedl trwy alw ar Sant Huw i weddio dros y pererinion:

O Hugh of Lincoln, likewise murdered so
By cursed Jews, as is notorious
(For it was but a little time ago),
Pray mercy on our faltering steps, that thus

Merciful God may multiply on us

His mercy, though we be unstable and vary,
In love and reverence of His mother Mary.

Y mae'n amlwg fod y cyhuddiad o lofruddiaeth ddefodol yn erbyn Iddewon Lincoln mor fyw ag erioed gan mlynedd a mwy ar ôl marwolaeth y bachgen.

Safai carreg goffa i'r merthyr Huw Fychan am ganrifoedd yng Nghaderlan Lincoln. Ond ym 1955 cymerwyd lle'r gofeb gan yr arysgrifen a ganlyn:

Trumped-up stories of ritual murders of Christian boys by Jewish communities were common throughout the Middle Ages, and even much later. These fictions cost many innocent Jews their lives. Lincoln had its own legend, and the alleged victim was buried in the Cathedral. A shrine was erected above and the boy was referred to as 'Little St Hugh'. Such stories do not redound to the credit of Christendom, and so we pray: 'Remember not Lord our offences, nor the offences of our forefathers'.

Fe gymerodd saith can mlynedd i ddileu'r camgyhuddiad a gwneud cyfiawnder â'r Iddewon.

Dwy enghraifft yn unig yw y rhain allan o tua chant a hanner a groniclwyd yn Ewrop rhwng canol y ddeuddegfed ganrif a diwedd yr unfed ar bymtheg. Ond gwelir ynddynt yr hyn sy'n nodweddu ymron pob cyhuddiad o lofruddiaeth ddefodol. Fel rheol, cyflawnid y weithred, yn ôl y cyhuddwyr, yn ystod yr Wythnos Fawr, neu'n fuan wedi'r Pasg, er mwyn difrio'r Croeshoeliad. Plentyn diniwed, bachgen gan amlaf, a ddewisid. Sall y cyhuddiad yn erbyn yr Iddewon oedd gair cyn-Iddew, un a feddyddiwyd yn ddiweddar ac a fedrai felly 'dystio' i'r anfadwaith a disgrifio gydag awdurdod arferion dieffig ac ofergoelus ei hil. Fel canlyniad anochel, fe gai'r Iddewon eu herlid yn ddidrugaredd a ddienyddid llawer ohonynt. Trwy ailadrodd y stori, byddai pob pererin yn sicrhau fod casineb tuag at yr Iddew yn cryfhau a chynyddu.

I'r sawl a ddefnyddiai ei reswm, celwydd golau oedd yr enllib gwaed. Nid oedd dim yn y Beibl na'r Talmwd i awgrymu fod ar Iddewon angen gwaed dynol ar gyfer eu defodau. I'r gwrthwyneb, yr oedd Cyfraith Moses yn gwahardd cyffwrdd â

gwaed anifail, heb sôn am waed dyn, am fod y gwaed yn gyfystyr â bywyd, ac felly'n perthyn i Dduw. Petai Iddew'n dod i gyffyrddiad â gwaed, byddai'n ei halogi ei hun. Ond arf gwan yw ffaith yn erbyn penboethni'r ffanatig. Yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg ysodd yr enllib trwy gyfandir Ewrop, yn enwedig yr Almaen, er i'r Ymerawdwr Frederick II anwybyddu'r cyhuddiad a gwrthod beio'r Iddewon. Gwnaeth y Pab Innocent IV yntau ddatganiad yn amddiffyn yr Iddewon ym 1247, y cyntaf o amryw ddatganiadau tebyg gan y Fatican dros y canrifoedd. Ond ofer fu'r holl ymdrechion. Yr oedd y chwedl wedi cydio'n rhy dynn yn nychymyg y werin i na phab na phendefig ei diwreiddio. Dim ond yn Ail Gyngor y Fatican, mor ddiweddar â 1965, y gwaharddwyd y ffyddlon-iaid rhag talu gwrogaeth i'r enwocaf a'r mwyaf poblogaidd o'r bechgyn ferthyrion, Sant Simon o Trent, a lofruddiwyd ym 1475. A rhag i neb dybio mai at Gristnogion yn unig y mae'r enllib gwaed wedi apelio fel gwialen i gystwyo'r Iddewon, beth am yr hysbyseb canlynol mewn rhifyn diweddar o bapur swyddogol y Ku Klux Klan yn yr Unol Daleithiau:

J E W S

OWN 75% OF THE

**Pet Food
Industry!**

**WHERE ARE OUR
MISSING CHILDREN?**

THINK

Halogi'r bara'r allor

Camgyhuddiad mwy cyfrwys a dichellgar na hyd yn oed enllib gwaed, oedd fod Iddewon yn dwyn bara'r Cymun o'r eglwysi a'i ddefnyddio i'w dibenion llwgr eu hunain. ('Halogi'r Hostia', sef y gair Lladin am y bara, oedd y disgrifiad penodol.) Daw

diffrifoldeb y trosedd honedig hwn i'r amlwg pan ystyriwn y datblygiadau pwysig a fu mewn diwinyddiaeth sacramentaidd yn yr Oesoedd Canol a'r defosiwn i Gorff Crist, sef y bara cysegredig, a flagurodd yn ei sgîl. Ym Mhedwerydd Cyngor y Lateran (1215) cafwyd datganiad tefynol ynglŷn â natur y presenoldeb dwyfol yn y Cymun Bendigaid, datganiad a gaeodd y mwddwl ar dros ganrif o ddadlau brwd rhwng uniongred a heretic. Ymadrodd technegol y Cyngor i ddisgrifio'r hyn a ddigwyddai ym mhob offeren oedd 'traws-sylweddïad', sef y gred fod elfennau'r Cymun, er iddynt barhau i ymddangos fel bara a gwin, yn troi'n gorff a gwaed Crist yn nwylo'r offeriad. Yr oedd y nodweddion yn aros ond y sylwedd yn newid. O ganlyniad, cyfrifid y weddi gysegru'n ganolbwynt y gwasanaeth, ac ar ei therfyn cymerau'r offeriad, a wynebai'r allor a'i gefn at y gynulleidfa, y bara yn ei ddwylo a'i ddrychau'u uwch ei ben. Cenedl cloch y cysegr i hoelio sylw'r addolwyr ar yr *hostia*. Byddai distawrwydd llethol am foment, ac yna anhrefn llwyr wrth i bawb ymdrech i gael cip ar Grist.

Yn raddol, daeth y bara ei hun yn wrthrych addoliad, ac i'r diben hwn fe'i cedwid mewn blwch ar yr allor ar ôl pob offeren. Ym 1264 sefydlodd y Pab Wrban IV wyl newydd o'r enw Corff Crist (*Corpus Christi*) i gadarnhau'r gred mewn traws-sylweddïad, ac mewn byr amser daeth hon yn wyl boblogaidd pan orymdeithiai'r ffyddloniaid trwy'r strydoedd yn cario Corff Crist. Ond ochr yn ochr â defosiynau swyddogol yr Eglwys, gwnaed defnydd helaeth o'r bara yn y gelfyddyd wen a'r gelfyddyd ddu. Datblygodd llu o ofergoelion ynglŷn â'i allu dewinol, ac o gofio grym ofergoeliath yn yr Oesoedd Canol, nid syn fod y bara'n cael ei ladrata o'r eglwys. Yr oedd meddu ar Gorff Crist yn amddiffyn rhag salwch, yn sicrhau ffirwthlondeb dyn ac anifail, ac yn cadw'r diafol draw. Petai mab yn cusanu merch â'r bara yn ei cheg, byddai'r driw iddi am byth. Ar yr un pryd yr oedd grym dinistriol yn perthyn i fara'r allor. O'i ddefnyddio gan wrachod yn y gelfyddyd ddu, yr oedd yn gallu achosi erthylu, salwch a cholledion ariannol. Yn dwylo anghywir yr oedd yn arf peryglus.

Yn fuan ar ôl Pedwerydd Cyngor y Lateran cyhuddwyd Iddewon Belitz, tref yn ymyl Berlin, o ddwyn y bara cysegredig

oddi ar yr allor, cyhuddiad a esgorodd ar ymron hanner cant o rai tebyg dros gyfnod o dair canrif (1243 - 1510). Gan fod yr Iddew, yn nhyb y werin, mewn cyfathrach â'r diafol, yr oedd yn barod i gyflawni'r fath anfadaith. Trwy drywanu'r bara â chyllell a hoelion yr oedd yn ailgroeshoelio Crist ac yn difrio Cristnogaeth. Ofer y protestiai mai darn o fara, a dim mwy, oedd yr *hostia* iddo ef. Ar gorn y camgyhuddiad hwn dienyddwyd miloedd o Iddewon yng ngogledd Ewrop cyn i'r Protestaniaid wrthod y gred mewn traws-sylweddïad a mynd â'r gwynt o hwyliau'r erlidwyr.

Y Chwilyys yn Sbaen

'Nefoedd ac uffern yr Iddew', dyna ddisgrifiad un hanesydd o Sbaen yr Oesoedd Canol. 'Nefoedd' am iddi fod yn noddfa gadarn iddo am ganrifoedd, 'uffern' am mai yma y profodd yr erlid ffyrnigaf rhwng y Croesgadau a chyfnod y Natsiaid. Pan gipiodd y Mwslimiaid y wlad o ddwylo'r Fandal a'r Fisgoth yn 711, gwithwyd y Cristnogion i'r gogledd ddwyrain, ar y ffin â Ffrainc, ac o ganlyniad eiddo'r Mwslim oedd y rhan fwyaf o Sbaen am bron bum canrif. O'u cynharu â'u rhagflaenwyr Cristnogol, yr oedd y Mwslimiaid yn oddefgar tuag at yr Iddew ac yn barod i'w arddel fel aelod o gymdeithas. Ni fu'r Iddewon fawr o dro'n manteisio ar y fath frawdgarwch, ac yn fuan iawn daethant i'r brig fel meddygon, gweinyddwyr, llysgenhadon, athrawon ac ysgolheigion. Sbaen, meddir, oedd 'Ail Jwdea' yr Iddew, oherwydd yma fe deimlai'n ddiogel a hyderus. Prin y clywid sôn am erlid, a thrwy drugaredd ni chafodd pregethwyr y Croesgadau unrhyw ddylanwad ar y Sbaenwyr. Yn sicr, dyna oes aur Iddewiaeth yng ngwledydd cred. Rhyngddynt bu Iddew a Mwslim yn gyfrifol am wneud Sbaen yn ganolfan diwylliant enwocaf Gorllewin Ewrop yn yr Oesoedd Canol cynnar. Ond erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg yr oedd cwmwl du ar y gorwel a Sbaen yn prysur golli ei henw da fel lloches sicr i'r miloedd o Iddewon o fewn ei therfynau. 'Roedd y nefoedd ar fin troi'n uffern.

Y Cristnogion Newydd

Daeth terfyn ar benarglwyddiaeth y Mwslim yn Sbaen ym 1212 pan ailfeddiannodd y Cristnogion y wlad gyfan, ar wahân i deyrnas Granada yn y de orllewin. Cofier nad un wlad oedd Sbaen yn y cyfnod hwn. Yr oedd yn cynnwys nifer o deyrnasoedd bychain megis Leon, Aragon, Navarre, Galicia a Castile, pob un â'i brenin ei hun. Yn ffodus, ni wnaeth ymadawiad y Mwslim o bobman ond Granada rony'n o wahaniaeth i hawddfyd yr Iddewon. Er gwaethaf gwŷs Pedwerydd Cyngor y Lateran y dylid eu neilltuo oddi wrth gymdeithas oherwydd eu dylanwad andwyol ar y ffyddloniaid, yr oedd y brenhinoedd Cristnogol yn barod iawn i barhau eu breintiau ac i elwa ar eu profiad mewn amryw o alwedigaethau allweddol. Ond yn raddol, cynynnodd llwyddiant yr Iddew eiddgedd y werin, ac erbyn canol y bedwaredd ganrif ar ddeg ymddangosodd yr erlid, a oedd cisoes mor amlwg mewn gwledydd eraill, yn Sbaen hefyd.

Ym 1371 eglurodd Cyngor Tref Toro yn Castile pam yr oedd y deyrnas yn dioddef cymaint o anfantaision:

Oherwydd y rhyddid a'r grym mawr a roddir i elynion y ffydd, yn enwedig yr Iddewon, trwy ein holl deyrnas, yn y lllys brenhinol yn ogystal â thai y marchogion, yr uchelwyr a'r pendefigion, ac oherwydd eu swyddi uchel a'r anrhydeddau pwysig sy'n perthyn iddynt, gorfodir pob Cristion i utuddhau iddynt, i'w hofni a'u parchu. Y mae'r holl gynghorau dinesig a phawb ym mhob man yn gaethion i'r Iddewon ac o dan eu hiau. P'run ai o achos y ffafr a gânt yn y lllys brenhinol ac mewn cartrefi bonedd, p'run ai o achos eu cyfoeth a'u swyddi, beth bynnag fo'r rheswm, y mae'r Iddewon, sy'n ddynion drwg ac anystyriol, gelynyddion Duw a Christnogaeth, yn gyfrifol am lawer o ddrygioni ac yn llygru'n ddigerydd. O ganlyniad, y mae'r Iddewon yn gormesu a difetha y rhan fwyaf o'n teyrnas allan o ddirmyg at Gristnogion a'n ffydd Gatholig.¹⁵

Agorodd y fath atgasedd y drws i erledigaeth, ac yn Sbaen, fel yng ngweddill cyfandir Ewrop, camgyhuddwyd yr Iddew o ddwyn bara'r allor, o ladd plant ac, yn ystod y Pla Du, o wenywyo ffynhonnau. Ofer fu ymgais yr awdurdodau i atal

¹⁵ Gw. D. Cohn-Sherbok, *The Crucified Jew: Twenty Centuries of Christian Anti-Semitism* (London 1992), t. 78.

cynddaredd y werinos, a Dydd Mercher Lludw 1391, yn dilyn pregethu huawdl a gwrth-Iddewig offeiriad o'r enw Martinez, cafwyd yr erlid mawr cyntaf yn hanes Iddewon Sbaen, pan ymosododd trigolion Seville ar eu cymdogion Iddewig a lladd dros bedair mil ohonynt. Dinistriwyd tair ar hugain o synagogau ysblennydd yn y ddinas a chodwyd eglwysi Cristnogol ar yr adfeilion. Carlamodd y terfysg trwy ddinasoedd eraill nes bod hanner can mil o Iddewon yn gelain, ac am ganrif union, nes eu halltudio o'r wlad ym 1492, dyma fu tynged cymunedau Iddewig llewyrchus Sbaen.

Ond er mor gŵaidd y gormes, yr oedd i'r Iddewon un ddihangfa sicr, sef bedydd. Fel yng ngogledd Ewrop yn ystod Rhyfeloedd y Groes, 'roedd ganddynt ddewis: un ai Cristnogaeth neu farwolaeth. Nid syn iddynt heidio i'r fedyddfan. Amcangyfrifir i chwe mil o Iddewon Sbaen dderbyn bedydd un ai'n wirfoddol neu wrth fin y cledd yn ystod y can mlynedd rhwng 1391 a 1492. Dyma'r Cristnogion Newydd, neu *Conversos* yn y Sbaeneg, sef Cristnogion o dras Iddewig. Yr oedd rhai ohonynt yn ddiidwyll yn eu cred ac yn argyhoeddedig o wirionedd Cristnogaeth. Gwelai eraill fanteision amlwg o droi cefn ar grefydd eu tadau. Am nad oeddent mwyach yn Iddewon, fe'u hystyrid yn aelodau cyflawn o gymdeithas, gyda'r hawl i ddal unrhyw swydd a fynnent. Aeth y mwyaf ymroddgar i ben yr ysgol yn ddiymdroi, ac erbyn canol y bymthegfed ganrif yr oedd *Conversos* i'w cael ym mhob galwedigaeth gwerth sôn amdani, gan gynnwys yr Eglwys. Urddwyd llawer yn offeiriad a chafwyd amryw o esgobion o'u plith. Yr oedd gan y mynachlogydd a'r lleiandai hefyd eu cyfran ohonynt, megis y Santes Teresa o Avila, un o sêr disgleiraf urdd y Carmeliaid, i enwi dim ond un. Am gyfnod edrychai'n bur debyg y câi'r *Conversos* dderbyniad gwresog gan eu cyd-gredinwyr, yr Hen Gristnogion fel y gelwid hwy, ac na fyddai unrhyw anhawster iddynt ymdodi i'r gymdeithas. Ond nid felly y bu.

Ym 1449 gwrthryfelodd dineswyr Toledo yn nheyrnas Castile yn erbyn y brenin am fod y dreth yn rhy uchel. Yn y sgarmes llofruddiwyd cyn-Iddew a oedd, fel llawer o'i genedl, yn gyfrifol am gasglu arian yn enw'r llywodraeth. Ym marn

y trigolion, *Conversos* ymhlith cynghorwyr y brenin oedd yn gyfrifol am godi'r dreth, ac am hyn fe haeddant y gosb eithaf. Llosgwyd eu tai a llofruddiwyd amryw ohonynt. Er mai rhesymau cymdeithasol oedd wrth wraidd yr erlid yn Toledo, fel yn Toro, y gŵyn swyddogol yn erbyn y *Conversos* oedd fod lle i amau dilysrwydd eu tröedigaeth. Er iddynt arddel Cristnogaeth yn gyhoeddus, yn y bôn parhaent yn Iddewon, ac i lawer o Sbaenwyr yr oedd Iddew cudd yn fwy o fygythiad i sefydlogrwydd y gymdeithas na Iddew agored. I ychwanegu at y dirmyg, rhoddodd y werin lysenw i'r Cristnogion Newydd, sef *Marranos*, y gair Sbaeneg am 'moch'.¹⁶

Gwaed drwg

Os oedd y *Marranos* mor barod i lithro'n ôl i fynwes eu tadau, yr oedd yn amlwg nad oedd dŵr bedydd mor effeithiol ag y tybid ei fod. Er gwaethaf holl hyfforddi a phregethu y brodyr cardod, teimlai llawer o'r Hen Gristnogion fod dylanwad Iddewiaeth yn dal yn drwm ar y Cristnogion Newydd. Ond er fod amheuan cryf ynglŷn â'u didwylledd, mater arall oedd profi gwrthgliad. Yn ffodus, 'roedd cymorth parod gerllaw. Onid priod waith y Chwyls, a sefydlwyd ddwy ganrif a hanner ynghynt i ymladd heresi yn Ffrainc, oedd gwarchod union-grededd? Gwnaed apêl at Rufain, a Thachwedd 1, 1478 ysgrifennodd y pab at Ferdinand ac Isabella, llywodraethwyr teyrnas unedig Aragon a Castile lle'r oedd y mwyafnif o Iddewon yn byw, yn caniatáu iddynt ethol dau swyddog i weithredu'r Chwyls yn Sbaen. Cafwyd y seremoni agoriadol yn Ionawr 1481, ac yn swyddogol bu'r Chwyls arbennig hwn mewn grym hyd 1834. Rhoddwyd y gwaith yn nwylo profiadol y Dominiciaid, gelynyddion oesol yr Iddew, a chafwyd y canlyniadau disgwylledig mewn byr amser. Dyletswydd y ffyddloniaid, ar boen eu bywyd, oedd hysbysu'r awdurdodau pe baent yn amau fod eu cymdogion yn wrthgilwyr. I'w cynorthwyo, lluniodd y Chwyls brawf crefyddol trwy restru tri deg a saith o wahanol ffyrdd i adnabod *Marranos*. Yr oedd simdde ddi-fwg ar y

¹⁶ Am hanes y Cristnogion Newydd yn Sbaen gw. C. Roth, *A History of the Marranos* (Philadelphia 1932).

Saboth, enwau o'r Hen Destament ar y plant, osgoi prynu cig moch gan y cigydd, ymatal rhag cydnabod athrawiaeth y Drindod trwy beidio ag adrodd 'Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân' mewn gwasanaeth eglwysig, a gwrthod gwisgo dillad parch ar y Sul, yn arwyddion sicr, ym marn y Chwyls, fod *Converso* wedi gwadu ei fedydd a dychwelyd at Iddewiaeth. Wedi'r cyhuddiad, yr oedd gan y troseddwr fis i syrthio ar ei fai cyn cael ei roi i'r poenydwyr. Pe bai'n parhau i ddiarddel Cristnogaeth, ni fyddai gan yr awdurdodau ddewis ond ei ddienyddio.

Er i swyddogion y Chwyls greu iddynt ddarganfod miloedd o Iddewon cudd yn rhengoedd yr Eglwys, yr oedd llawer iawn o'r *Conversos* mor gadarn yn y ffydd ag unrhyw Gristion arall. Perthynai nifer fawr ohonynt i deuluoedd a oedd wedi bod yn Gristnogion am genedlaethau; trodd eraill at Grist o argyhoeddiad. Nid oedd dim yn eu bywyd bob dydd i awgrymu dylanwad Iddewiaeth, ac felly dim achos i'w cosbi. Gellid tybio mai unig ddiben y Chwyls oedd cloriannu ffyddlondeb y Cristnogion Newydd hyn i Gatholiaeth trwy graffu ar eu cred a'u ffordd o fyw. Ond cofiwn nad gwrthgliad oedd y broblem sylfaenol yn Sbaen. Y gwir achos yn erbyn y *Marranos* oedd fod y wlad yn gyfuriog ohonynt a'u bod yn ymwthio i'r swyddi brasaf yn y gymdeithas. Wrth wraidd apêl Ferdinand ac Isabella am gymorth y Fatican oedd eu dymuniad am deyrnas sefydlog, unedig, teyrnas a fyddai'n rhydd o ddylanwadau dimistriol. Os oedd y Chwyls am achub byd ac Eglwys o afael haid o gyn-Iddewon uchelgeisiol, yr oedd yn rhaid iddo fedru gwahaniaethu'n eglur rhwng Hen Gristnogion a Christnogion Newydd. Pan fethodd y prawf cyntaf â sicrhau lleihad sylweddol yn nifer y *Marranos*, bathwyd dull arall, un cwbl ddiamwys y tro hwn, i gael gwared ohonynt. Os na ellid profi fod y *Marrano* yn wrthgiliwr, ac felly'n euog o heresi, nid oedd unrhyw amheuaeth ynglŷn â'i dras. Er i'w gyndadau droi'n Gristnogion genedlaethau ynghynt, fe'i cyfrifid ef yn Iddew o ran hil. Llifai gwaed Iddewig yn ei wythiennau, ac yr oedd gwaed Iddew, fel gwaed dyn du, yn effeithio ar genedlaethau o ddisgynyddion. Pe bai hwn yn cymysgu â gwaed yr Hen Gristnogion trwy briodas, byddai'n eu llygru am byth oherwydd effaith andwylol

yr Iddew, llofrudd y Crist, ar bawb a phopeth. Er mwyn sicrhau pwy oedd yn hanu o deulu Iddewig a phwy nad oedd, bathodd y Chwyllys 'Y Deddfau Gwaed Pur'. Yn lle prawf yn seiliedig ar gadw neu anwybyddu arferion crefyddol, cafwyd prawf biolegol. Yr oedd pawb o dras Iddewig, hyd yn oed ar un ochr i'w deulu'n unig, un euog o gario 'gwaed drwg' (*mala sangre*) ac yn haeddu ei gosbi am droseddau yn erbyn cymdeithas. Y tro hwn, nid oedd modd i'r *Marrano* ddianc o'r fagl.

Mewn dadansoddiad trylwyr o fwriad y Chwyllys, meddai Benjamin Netanyahu:

Its purpose was to degrade, impoverish and ruin the influence of the Marranos in all spheres of life, to terrorize and demoralize them individually and collectively — in brief, to destroy them psychologically and physically so as to make it impossible for them to rise again as a factor of any consequence in Spain. The aim of the Inquisition, therefore, as I see it, was not to eradicate a Jewish heresy from the midst of the Marrano group, but to eradicate the Marrano group from the midst of the Spanish people.¹⁷

Casgliad Netanyahu, ac eraill, yw fod y Chwyllys yn Sbaen wedi dod i ystyried Iddewiaeth yn broblem hiliol yn hytrach na phroblem ddiwinyddol.

Gan iddo dderbyn bedydd, hyd yn oed os o dan orfod, cyfrifid pob *Marrano*'n Gristion, ac os llithrai'n ôl i Iddewiaeth deuai o dan awdurdod cydnabyddedig y Chwyllys am ei fod yn euog o heresi. Ond nid oedd y Chwyllys yn fodlon cyfyngu ei sylw i wrthgilywyr. Wedi deng mlynedd o erlid y *Marranos*, penderfynwyd altudio hynny o wir Iddewon a oedd ar ôl yn Sbaen, a Mawrth 31, 1492 arwyddodd Ferdinand ac Isabella ddeddf yn eu bwrw allan o deyrnas Aragon a Castile am byth. Y mae dylanwad y Chwyllys yn amlwg yng ngeiriad y ddogfen:

Fe'n hysbysir gan swyddogion y Chwyllys, ac eraill, fod caniatáu i Iddewon a Christnogion gymysgu yn peri drygioni difesur. Gwna'r Iddewon eu gorau i arwain Cristnogion Newydd a'u plant ar gyfeiliorn trwy roi llyfrau gweddi Iddewig iddynt,

¹⁷ *The Marranos of Spain* (New York 1966 a 1973), t. 4.

eu dysgu am wyliau'r Iddewon, rhoi bara croyw iddynt ar gyfer y Pasg, eu hyfforddi ynglŷn â bwyd gwaharddedig a'u cynnell i ddilyn Cyfraith Moses. O ganlyniad, y mae ein ffydd Gatholig yn cael ei hamharchu a'i diraddio. Casglwn, felly mai'r unig ffordd effeithiol i atal y fath ddrygau yw torri pob cysylltiad rhwng Iddewon a Christnogion unwaith am byth. Ni ellir gwneud hyn ond trwy eu halltudio o'n teyrnas.¹⁸

Âr awduron ymlaen i ddisgrifio'r ymdrech a wnaed dros ddeng mlynedd i buro Cristnogaeth yn Sbaen trwy atal yr Iddewon rhag dylanwadu ar y *Conversos*. Ond ofer, meddant, fu pob ymgais. Yr unig ddewis bellach oedd alltudiaeth. Yr oedd gan yr Iddewon bedwar mis un ai i droi'n Gristnogion neu i adael y wlad heb eu heiddo na'u harian. Ffodd y mwyafrif, tua 150,000, i Bortugal, ac aeth eraill i Ogledd Affrica. Ni chafodd yr un ohonynt groeso yn Ffrainc. Gorffennaf 31, 1492, y diwrnod yr hwyliodd Columbus tua'r Byd Newydd, ac yn y calendr Iddewig y dydd ymptyd blynyddol i gofio Cwmp yr Ail Deml, gadawodd yr Iddew olaf ddaear Sbaen.

Casgliadau

Erbyn y ddeuddegfed ganrif 'roedd atgasedd tuag at yr Iddew yn blaguro'n gyflym yng ngorllewin Ewrop. Diflannodd goddefgarwch yr Oesoedd Canol cynnar megis dros nos. Yng nghysgod Rhyfeloedd y Groes ymosodwyd yn ddidrugaredd ar yr Iddew yn enw'r Eglwys. Fel y dengys y camgyhuddiadau, ystyrir ef yn un o elynion pennaf Cristnogaeth, ac am hynny fe haeddai y gosb eithaf. Mewn byr amser cafodd polisi goddefgar Awstin a Grigor Fawr, a oedd wedi ffynnu am tuag wyth can mlynedd, ei whio o'r neilltu gan y Brodyr Cardod, dilynwyd selog Ffransis a Dominic, a enillodd eu plwyf yn gynnar yn y drydedd ganrif ar ddeg fel ysgolheigion ac arweinwyr ysbrydol. Yn niwinyddiaeth y Brodyr, nid oedd gan yr Iddew hawl i fodoli; ei unig ddewis oedd cleddyf neu fedydd. Ceisiodd yr awdurdodau amddiffyn yr Iddewon. Yn

¹⁸ Gw. D. Cohn-Sherbok, *op.cit.*, t. 88.

ystod Croesgad 1146 pregethodd Bernard, abad enwog Clairvaux a sefydlodd Urdd y Sistersiaid, yn erbyn erledigaeth, a bu rhes o babau'n gyson yn eu condemnïad o greulondeb Eglwys lleol. Ond llwybr anodd i'w droedio oedd eiddo'r Fatican. Ar un llaw, dylid gwarchod yr Iddew rhag niwed am fod nod Cain arno; yr oedd pwrpas i'w fodolaeth. Ar y llaw arall, yr oedd rhaid sicrhau ei fod yn byw o dan ormes y Cristion, oherwydd yr oedd i hyn hefyd ddiben arbennig yn arfaeth Duw. Y canlyniad fu i'r pabau, tra oeddent yn galw am oddefgarwch, hybu deddfau eglwysig a fu'n andwyol i'r Iddew. Yn y pen draw, methiant fu eu hymngais i ffrwyno llied y dorf ac atgasedd y Brodyr. Uchafbwynt eu methiant oedd y Chwyls yn Sbaen ac alltudiaeth 1492.

Sylwn ar un ddolen gyswllt rhwng y Chwyls a chyfnod y Natsiaid. Dangosodd profiad y Cristnogion Newydd fod natur gwrth-Iddewiaeth wedi newid yn sylfaenol erbyn cyfnod y Dadeni. Bellach, nid diwinyddiaeth, fel yn yr Oesoedd Canol, oedd unig llynyn mesur yr Eglwys i ddiffinio'r Iddew. Yr oedd person yn Iddew trwy waed yn ogystal â thrwy gred. Yn Sbaen y bymthegfed ganrif y cafwyd yr elfen hiliol hon mewn gwrth-Iddewiaeth am y tro cyntaf. A'r eironi yw iddi ymddangos nid am i'r Iddewon wrthod Crist, ond am i gymaint ohonynt droi ato. Nid oedd angen deddfau gwaed pur i adnabod y gwir Iddew; yr oedd ei anghrediniaeth eisoes wedi ei neilltuo. Pe bai'r Iddewon heb dderbyn bedydd yn eu lluoedd, y mae'n bosibl na fyddai hilyddiaeth erioed wedi cydio yn nychymyg y Cristion. Bathwyd y prawf hiliol i buro cymdeithas o 'waed drwg' yr Iddew bedyddiedig a'i gwarchod rhag ei ddylanwad dinistriol. Dyna'n union a wnaeth Adolph Hitler.

Ni ddylai gormes yr Eglwys ein harwain i dybio mai hunllef barhaus oedd bywyd yr Iddew cyffredin ar ôl 1096. Y mae dehongliad dagreulol rhai haneswyr o'r cyfnod hwn, fel o'r cyfnod cynnar, yn gamarweiniol. Y mae'r angen i ailgyhoeddi deddfau'n gwahardd Iddew a Cristion rhag yngyfathrachau yn dangos fod y fath gyfathrach yn bod. Y mae parodrwydd Cristnogion i ymgeleddu eu cymdogion Iddewig mewn cyfnod o erlid yn awgrymu brawdgarwch a chydymdeimlad o'r naill

ochr ac ymddiriedaeth a ffydd o'r llall.¹⁹ Y mae dysgeidiaeth swyddogol yr Eglwys, trwy ddilyn Awstin a Grigor Fawr, yn cynnwys had y goddefgarwch sy'n nodweddu ein cyfnod ni. Tra oedd anffyddwyr a hereticiaid yn cael eu dienyddio, bu gan yr Iddew hawl am ganrifoedd i fyw yn y gymdeithas Cristnogol. Blodeuodd ysgolheictod Iddewig, yn enwedig mewn Ysgrythur, cyfriniaeth a gwyddoniaeth, a cheir enghreifftiau o ysgolheigion Cristnogol yn troi at Iddewon am gymorth a goeuni ar amryw o bynciau. Gwnaeth yr Iddew gyfraniad sylweddol hefyd at gyllid pob gwlad yng ngorllewin Ewrop. Serch hynny, ni ellir gwadu nad dirywio'n raddol a wnaeth statws yr Iddew mewn cymdeithas, dirywiad ac iddo gysylltiad yn uniongyrchol â pholisi'r Eglwys Gatholig.

¹⁹ Am ddogfennau sy'n tystio i ymdrech yr Eglwys a'r wladwriaeth i amddiffyn yr Iddewon gw. R. Chazan, *Church, State and Jew in the Middle Ages* (New York 1980), Rhan 3.